



Mick Antoniw
Cadeirydd y Pwyllgor
Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

11 Hydref 2018

Annwyl Mick

Bil Amaethyddiaeth

Diolch i chi am eich llythyr dyddiedig 24 Gorffennaf. Rwy'n croesawu'r cyfle i egluro'r darpariaethau ymhellach.

Fel y gwelwch, natur atodlen Cymru yw cyflwyno cyfres o bwerau dirprwyedig i Weinidogion Cymru. Mae'r pŵerau'n weddol debyg i rai Llywodraeth y DU ar gyfer Lloegr. Mae'r darpariaethau sydd ar gael yn adlewyrchu ansicrwydd Brexit a'r ffaith bod polisiâu Cymru yn parhau i fod yn destun ymgynghoriad. Rwy'n credu ei fod yn ddoeth i dderbyn y pwerau ond rwy'n gwybod nad oes penderfyniadau polisi wedi'u gwneud.

Fel yr ydych yn nodi, fy mwriad o hyd yw cyflwyno Bil Amaethyddiaeth (Cymru) i'r Cynulliad unwaith y bydd Llywodraeth Cymru wedi cwblhau'r ymgynghoriadau a'r asesiadau effaith angenrheidiol. Mae "Brexit a'n Tir" yn nodi'r ymgynghoriad cyntaf, lefel uchel ac rwy'n disgwyl rhagor o ddogfennau i ddilyn. Yr ymgynghoriad nesaf fydd Papur Gwyn yn ystod Gwanwyn 2019.

O ran awdurdod dirprwyedig, y dull cyffredinol sy'n cael ei ddefnyddio yn y Bil yw defnyddio'r weithdrefn gadarnhaol ar gyfer pwerau creu rheoliadau i sefydlu fframweithiau newydd (er enghraifft, cymorth ariannol a fframweithiau casglu gwybodaeth) a'r weithdrefn negyddol ar gyfer materion technegol sy'n gysylltiedig yn bennaf â gweinyddu taliadau o dan y ddeddfwriaeth bresennol. Rwy'n disgwyl i'r gwahaniaeth hwn gael ei drafod yn Senedd y DU yn ystod taith y Bil drwy'r Senedd, yn benodol y Pwerau Dirprwyedig a'r Pwyllgor Diwygio Rheoleiddio.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rwyf wedi ymrwymo i sicrhau bod gan y Cynulliad y cyfleoedd priodol i graffu ar y darpariaethau hyn drwy'r broses Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ac rwyf wedi darparu memorandwm. Mae hyn yn cynnwys cyfeirio at y ddau fater sy'n weddill: Sefydliad Masnach y Byd a darpariaethau y Lefi Cig Coch. Byddaf yn hysbysu'r Cynulliad a'r Pwyllgor wrth i drafodaethau ddatblygu gyda Llywodraeth y DU ar y ddau fater hwn.

Byddaf hefyd yn rhoi'r newyddion diweddaraf i'r Cynulliad ar fy nhrafodaethau rhwng y gweinidogion ar fframweithiau ar draws y DU. Ochr yn ochr â chyhoeddi y Bil Amaethyddiaeth, cyhoeddais ddatganiad ar y cyd gyda'r Ysgrifennydd Gwladol ar y materion hyn sydd ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru ar

<https://gov.wales/about/cabinet/cabinetstatements/2018/introukagribill/?skip=1&lang=cy>

Cofion

A handwritten signature in black ink that reads "Lesley". The signature is written in a cursive, flowing style with a long, sweeping underline that curves back under the 'y'.

Lesley Griffiths AC/AM

Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig
Cabinet Secretary for Energy, Planning and Rural Affairs